# Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin



# Pecyn Swydd Dirprwy Bennaeth

# Llythyr i ymgeiswyr

6ed o Chwefror 2023

Annwyl ymgeisydd,

Diolch i chi am eich diddordeb yn rôl y Dirprwy Bennaeth yn Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin.

Rydym, fel ysgol, yn edrych i benodi arweinydd ysbrydoledig a phrofiadol i gyd-arwain yr ysgol i'r dyfodol yn ystod y cyfnod heriol hwn. Bydd yr ymgeisydd llwyddiannus yn meddu ar weledigaeth ac uchelgais, yn addysgwr rhagorol ac angerddol. Bydd yn medru cydweithio'n effeithiol gyda'r holl rhanddeiliaid gan osod esiampl gadarnhaol i staff a disgyblion.

Yma ym Mro Myrddin mae gennym ddisgwyliadau uchel iawn o'n holl fyfyrwyr, nid yn unig yn eu llwyddiant academaidd ond hefyd yn eu datblygiad moesol ac emosiynol. Rydym yn chwilio am Ddirprwy Bennaeth eithriadol a fydd yn medru gweithio gyda ni er mwyn rhoi'r cyfle gorau i holl ddisgyblion a staff yr ysgol. Bydd y swydd yn gyfle euraidd i chi ddatblygu ymhellach fel arweinydd ac yn addysgwr.

Os oes gennych ddiddordeb yn y cyfle unigryw hwn, ac yn barod i ymrwymo i wneud gwahaniaeth ac os oes gennych yr angerdd a'r egni yr ydym yn chwilio amdano, yna byddem yn croesawu derbyn cais gennych.

I wneud cais, cwblhewch y ffurflen arlein ar wefan Eteach.

Os yn dymuno cael sgwrs bellach neu i drefnu ymweliad â'r ysgol cysyllter â Miss Siân Thomas, Clerc y Corff Llywodraethol sian.thomas@bromyrddin.org

**Dyddiad cau:** Dydd Llun 27ain o Chwefror 2023 *(canol dydd)*
**Cyfweliadau:** Dydd Gwener 3ydd o Fawrth 2023

Yn gywir



Mrs Luned Thomas
Cadeirydd y Corff Llywodraethol

# Swydd ddisgrifiad

**Teitl y swydd:** Dirprwy Bennaeth Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin.

**Pwrpas y swydd:** Bydd y Dirprwy Bennaeth yn chwarae rôl hanfodol yn cynorthwyo i gynnig gweledigaeth, arweiniad a chyfeiriad strategol i'r ysgol ar y cyd gyda'r Pennaeth a'r Corff Llywodraethol. Bydd yn rhannu'r cyfrifoldeb o greu hinsawdd anturus, ysgogol a chynhyrchiol i ddisgyblion a staff. Bydd yn ymrwymo i hybu addysg cyfrwng Cymraeg, Cymreictod, enw da, traddodiadau a statws yr ysgol yn y gymuned leol a'r gymuned ehangach. Bydd yn cynorthwyo gyda threfniadaeth gyffredinol yr ysgol ac yn cyfrannu'n gadarnhaol at ddisgyblaeth. Pan fydd angen, bydd y Dirprwy Bennaeth yn dirprwyo yn lle'r Pennaeth.

**Prif gyfrifoldebau:**

- Cyfrifoldeb am ddata ysgol gyfan yn cynnwys holl drefniadau asesu ac adrodd i rieni.
- Cydweithio gyda'r swyddog data i arolygu trefniadau'r byrddau arholi amrywiol a threfniadau arholiadau mewnol ac allanol.
- Arwain datblygiad asesu effeithiol iawn a fframwaith dilyn cynnydd er mwyn gwneud y mwyaf o berthnasedd systemau asesu a chofnodi fel cyfrwng i ganlyniadau gwell i ddisgyblion.
- Meddu ar orolwg o ran sicrhau effeithlonrwydd systemau electroneg i gefnogi rheolaeth ar ddata academaidd.
- Dadansoddi data perfformiad yr ysgol er mwyn sicrhau bod blaenoriaethau'n addas a bod gwelliant mewn safonau'n cael eu hybu.
- Monitro a thracio ysgol gyfan.
- Datblygu a chyflwyno adroddiad cydlynol, dealladwy a chywir o berfformiad yr ysgol i ystod o gynulleidfaoedd gan gynnwys rhieni a llywodraethwyr.
- Arwain cymuned ddysgu broffesiynol ar asesu a chynnydd.
- Cyfrifoldeb am y defnydd o SIMS a'r holl feddalwedd sy'n bwydo iddo.
- Trefnu nosweithiau rhieni i drafod cynnydd disgyblion.
- Cyfrannu tuag at systemau hunan arfarnu'r ysgol gan gynnwys dadansoddi data er mwyn codi safonau.
- Adnabod anghenion grwpiau o ddysgwyr er mwyn darparu rhaglenni ymyrraeth i'w cynorthwyo.
- Cyfrifoldeb am drefnu rhaglenni ar gyfer disgyblion MAD yr ysgol.
- Cyfrifoldeb am gydlynu holl systemau rhwydwaith yr ysgol trwy gydweithio'n agos fel rheolwr cyswllt gyda'r Rheolwr Rhwydwaith. Hyrwyddo'r ysgol trwy ein gwefan a'n platfformau Twitter/Facebook/ Instagram ayyb.
- Cyfrifoldeb am Iechyd a Diogelwch yr ysgol gyfan gan gynnwys asesiadau risg.
- Cynnal trefn a disgyblaeth y disgyblion, a diogelu eu hiechyd a'u lles, pan fo disgyblion yn bresennol ar safle'r ysgol a ble bynnag mae disgyblion yn cymryd rhan mewn gweithgareddau a awdurdodir gan yr ysgol, fel bo'n berthnasol.
- Cyfrifoldeb am drefniadau Evolve o ran teithiau ysgol.
- Llunio a chyd-lynu calendr blynyddol yr ysgol.
- Cyd-lynu holl ddigwyddiadau mewnol ac allanol yr ysgol megis Eisteddfodau, nosweithiau agored a sioeau.
- Ymgymryd ag unrhyw ddyletswyddau a chyfrifoldebau sy'n gymesur â gradd y swydd a chymryd rhan mewn adolygiad o gynnwys y disgrifiad swydd.

**Dyletswyddau Cyffredinol**

- Aelod o'r Tîm Arweinyddiaeth a fydd yn arwain a chymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau i gefnogi datblygiad Ysgol Gyfun Gymraeg Bro Myrddin.
- Dirprwyo yn ystod absenoldeb y Pennaeth.

- Cyfrannu at ystod eang o weithgareddau Hunanarfarnu a Chynllunio Gwelliant: polisïau, gweithdrefnau, gweithredu a monitro.
- Cefnogi polisïau, gweithdrefnau a phrosesau ymddygiad yr ysgol.
- Paratoi adroddiadau a'u cyflwyno, fel sy'n addas, i'r llywodraethwyr ynghylch agweddau penodol o rolau a chyfrifoldebau'r swydd.
- Cymryd rhan yn y broses Rheoli Perfformiad fel un sy'n cael ei arfarnu ac fel arfarnwr.
- Rheolwr llinell i adrannau penodol er mwyn arfarnu safonau.
- Hybu gweithgareddau allgyrsiol yn yr ysgol a'r tu allan iddi, gan gynnwys cysylltu â'r gymuned.
- Ymgymryd â dyletswyddau ar ddechrau/diwedd y diwrnod ysgol, yn ystod gwyliau ac amser cinio, yn ôl cyfarwyddyd y Pennaeth.
- Mynychu ac arwain gwasanaethau.
- Disgwylir i'r Dirprwy Bennaeth, fel gweddill yr UDA i addysgu grwpiau o ddisgyblion penodol yn unol ag amserlen gytunedig, gan osod a marcio gwaith gan ystyried cwricwlwm yr ysgol
- Disgwylir i'r Dirprwy Bennaeth, fel gweddill yr UDA i oruchwylio disgyblion, pan fo angen, pan nad yw eu hathro'n bresennol a'u haddysgu lle bo'n bosibl.

Gall union natur y swydd ddisgrifiad gael ei addasu yn ôl arbenigedd a meysydd o gryfder proffesiynol yr ymgeisydd llwyddiannus. Bydd y disgrifiad swydd yn ogystal yn cael ei adolygu'n flynyddol, ac o reidrwydd yn esblygu wrth i'r ysgol ddatblygu.

Er y gwnaed pob ymdrech i esbonio prif ddyletswyddau a chyfrifoldebau'r swydd, hwyrach na fydd pob tasg unigol a wneir yn cael eu nodi.

# Manyleb Person

Mae'r Fanyleb Person yn dangos y sgiliau, y wybodaeth a'r profiad yr ystyrir sydd eu hangen i allu ysgwyddo cyfrifoldebau'r swydd yn effeithiol.  Fe'i defnyddir i dynnu rhestr fer ac wrth gyfweld ar gyfer y swydd.

Dylech ddangos ar eich ffurflen gais sut yr ydych yn bodloni'r meini prawf yma.

| **Hanfodol** | **Delfrydol** |
|---|---|
| **Cymwysterau** | |
| • SAC<br>• Cymhwyster gradd<br>• Aelod cofrestredig o GGAC<br>• Tystiolaeth o ddiweddaru gwybodaeth broffesiynol yn gyson *(yn enwedig ym maes arweinyddiaeth a rheolaeth)* | • Gradd Uwch/Cymhwyster Ôl-radd mewn addysg/rheolaeth<br>• CPCP neu ymrwymiad i ymgymryd â chymhwyster CPCP<br>• Astudiaeth broffesiynol berthnasol neu hyfforddiant mewn arweinyddiaeth addysgol |
| **Profiad** | |
| • Profiad sylweddol ar lefel uwch arweinyddiaeth<br>• Profiad llwyddiannus mewn cyflawni gwelliannau mewn ysgol, codi safonau a rheoli newidiadau<br>• Tystiolaeth o fod yn Arweinydd Tîm hynod effeithiol<br>• Profiad o ddefnyddio ystod eang o ddata yn llwyddiannus i osod targedau, codi safonau a mesur perfformiad<br>• Profiad o gynllunio strategol<br>• Tystiolaeth o arwain, rheoli, monitro, a hunan arfarnu agweddau o ddarpariaeth ysgol<br>• Tystiolaeth o fagu perthynas weithio dda gyda gwasanaethau ac asiantaethau allanol<br>• Profiad o ysgogi, cefnogi a herio cydweithwyr ar bob lefel<br>• Tystiolaeth o arwain strategaethau a gafodd ddylanwad cadarnhaol ar ddeilliannau disgyblion | • Profiad helaeth o weithio yn y sector cyfrwng Cymraeg<br>• Tystiolaeth o arwain strategaethau penodol i ddatblygu ethos ysgol gynhwysol<br>• Profiad o reoli newid yn effeithiol<br>• Profiad o weithio mewn mwy nag un ysgol<br>• Profiad o ddatblygu a chyflwyno adroddiad cydlynol, dealladwy a chywir o berfformiad yr ysgol i ystod eang o gynulleidfaoedd gan gynnwys rhieni a llywodraethwyr |
| **Gwybodaeth a Dealltwriaeth o'r canlynol** | |
| • Prosesau cynllunio strategol er mwyn sicrhau gwelliant parhaus<br>• Arweinyddiaeth a rheolaeth effeithiol mewn perthynas â chodi safonau ym mhob agwedd o fywyd ysgol<br>• Materion a blaengareddau addysgiadol cenedlaethol cyfredol o ran dysgu ac addysgu, arweinyddiaeth a rheolaeth, asesu, monitro a hunanwerthuso | • Strategaethau Gwella Ysgol effeithiol a'r ffordd y defnyddir tystiolaeth fewnol ac allanol i werthuso a blaenoriaethu<br>• Strategaethau angenrheidiol i sicrhau dysgu ac addysgu effeithiol a dysgwyr llwyddiannus |

| | |
|---|---|
| • Strategaethau ymyrraeth effeithiol i wella cyflawniad disgyblion<br>• Systemau tracio cynnydd megis SMiD neu systemau tebyg<br>• Dealltwriaeth o SIMS<br>• Trefniadau arholiadau allanol gan gynnwys gwybodaeth am fyrddau arholi amrywiol<br>• Trefniadau Rheoli Perfformiad<br>• Gwybodaeth eang am amddiffyn a diogelu plant<br>• Dealltwriaeth o Gwricwlwm Cenedlaethol Cymru a phrofiad cadarn o gyflwyno'r Cwricwlwm, monitro ac asesu<br>• Dealltwriaeth o'r mesurau perfformiad CA4 a CA5 | |
| **Sgiliau a Chymwyseddau** | |
| • Ymrwymiad i sefydlu a datblygu ethos arbennig yr ysgol<br>• Y gallu i wneud penderfyniadau a nodi a datrys problemau yn seiliedig ar ddadansoddiad trylwyr, doeth a gonest<br>• Y gallu i gyfathrebu'n ardderchog yn ysgrifenedig ac ar lafar yn y Gymraeg a'r Saesneg<br>• Sgiliau cyflwyno o safon uchel<br>• Y gallu i feddwl yn strategol<br>• Y gallu i sicrhau ymrwymiad eraill i weledigaeth yr ysgol<br>• Sgiliau addysgu ardderchog<br>• Hyrwyddo safonau uchel o ymddygiad<br>• Cynllunio, blaenoriaethu a threfnu gwaith personol yn effeithiol<br>• Y gallu i gael pethau wedi eu cyflawni i safon uchel o fewn cyfyngderau amser<br>• Y gallu i gymell ac ysbrydoli eraill i gyrraedd y safonau uchaf ymhob agwedd o'u gwaith<br>• Y gallu i fod yn hyblyg ac i weithio mewn timau amrywiol er mwyn gwella darpariaeth<br>• Sgiliau rhyngbersonol ac adeiladu tîm ardderchog<br>• Sensitifrwydd wrth ddelio gyda materion mewn perthynas â lles staff a disgyblion | • Y gallu i ddefnyddio TGCh yn effeithiol i gefnogi cwricwlwm a rheoli llwyth gwaith<br>• Dathlu llwyddiant a herio tanberfformiad yn effeithiol |
| **Nodweddion Personol** | |
| • Yn uchelgeisiol, brwdfrydig ac egnïol<br>• Yn angerddol ynglŷn â dysgu ac addysgu effeithiol<br>• Brwd ac ymroddgar i lwyddiant yr ysgol | |

| | |
|---|---|
| • Yn gosod llwyddiant plant a phobl ifanc yn flaenllaw ym mhob penderfyniad<br>• Yn gallu cefnogi staff a gofalu am eu lles<br>• Safonau a disgwyliadau personol uchel ohonynt eu hunain ac eraill<br>• Yn arddangos dyfalbarhad a chadernid<br>• Y gallu i weld potensial mewn disgyblion a chydweithwyr a'u cynorthwyo i weld a gwireddu'r potensial hwnnw | |